



## YMATEB ARDDERCHOG I'R GWASANAETH

### AR-LEIN

Yn ôl y ffigyrau, ymunodd llawer iawn ohonoch chi â'r oedfa a'r cymun oedd ar gael ar YouTube fore Sul. Mae ein diolch i Delwyn a phawb o'r cyfranwyr, ynghyd ag arbenigedd Wyn Jones, ddaeth â'r cyfan at ei gilydd a'i ddarparu ar ein cyfer.

Mae llawer ohonoch wedi anfon negeseuon i ddiolch am yr oedfa ac i fynegi eich gwerthfawrogiad. Rydyn ni'n cyhoeddi detholiad o'ch geiriau caredig ar y dde – gan ymddiheuro os ydyn ni wedi tocio yma a thraw, i osgoi bod yn rhy ail-adroddus.

**Yr un mor bwysig, gawn ni eich atgoffa mai'r plant fydd yn arwain yr oedfa fore Sul nesaf mewn gwasanaeth arbennig ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol. Dyma'r linc i'w gyrraedd:**

[https://youtu.be/6c9jD41v\\_40](https://youtu.be/6c9jD41v_40)

Ond fe allwch chi hefyd fod yn paratoi ymlaen llaw fel yr eglura Heulwen Jones, sydd yn gofalu am y trefniadau:

"Mae'r wybodaeth am Wythnos Cymorth Cristnogol ar gael ar [www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week](http://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week) Gallwch wyllo fideo am Florence, sy'n byw yn Kenya, sydd wedi trawsnewid ei bywyd ers iddi gael cymorth gan un o bartneriaid Cymorth Cristnogol:

[www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week/resources?textSearch=&page=1](http://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week/resources?textSearch=&page=1)

Gallwch hefyd gyfrannu at yr apêl eleni drwy fynd i'r wefan: [www.caweek.org/payin](http://www.caweek.org/payin)

Heulwen Jones



- ❖ Wedi mwynhau'r gwasanaeth bore 'ma.
- ❖ Llongyfarchiadau i bawb fu'n gysylltiedig a'r arlwy. Shwd yn y byd mawr y llwyddodd Wyn i gasglu popeth ynghyd?
- ❖ Eisiau isio dweud gymaint wnes i fwynhau. Diolch i chi gyd am baratoi ac am gyflwyno mor hyfryd. Arbennig. A braf gweld hen wynebau hefyd wrth gwrs!
- ❖ Mae'n ffordd dda iawn o rannu'r neges ac o gadw yn glos fel cynulleidfa Bethlehem
- ❖ Wedi llwyddo i wyllo a mwynhau'r oedfa yma yn Ffrainc. Mor rhyfedd oedd teimlo mor agos adre a ninnau mor bell!! Diolch i Delwyn a phawb a gymerodd ran ... Edrych ymlaen at wythnos nesa rwan.
- ❖ Hynod o werthfawr.
- ❖ Effeithiol dros ben.
- ❖ Gwasanaeth arbennig. Diolch i bawb am eu cyfraniad.
- ❖ Ges i fendith fawr o wyllo'r oedfa bore 'ma. Diolch i chi gyd.
- ❖ Ges ti hwyl arni. Pan ddaw hyn i ben fe fyddwn ni gyd wedi meistrolu sgiliau newydd.
- ❖ Wedi bod yn yr oedfa bore 'ma. Yn teimlo'n emosiynol iawn, wedi mwynhau. Y gwasanaeth yn wych. Diolch i bawb a gymerodd ran. Pawb yn dda a Delwyn yn arbennig.



*Dyma'r rai o'r plant fu'n rhan o'r Ysgol Sul yr wythnos ddiwethaf (Mai 10fed).*

## AC WRTH GWRS ...

**Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd ar-lein fel arfer y Dydd Sul nesa eto - (Mai 17) ar yr un amser (10.30) ac y mae croeso i unrhyw un ymuno â'r sesiwn.**


Y drefn ydy bod Heulwen yn anfon linc yn uniongyrchol i'r teuluoedd. Os oes unrhyw un arall am ymuno, yna mae angen iddyn nhw roi gwybod i Heulwen ar e-bost neu ffôn (*manyllion isod*) ac fe wnaiff hi "hala'r linc" iddyn nhw.

Heulwen Jones [heulwen@btinternet.com](mailto:heulwen@btinternet.com) 07779 360614

## YR ENFYS AR Y GARTH



Neges o obaith i bawb sy'n cerdded un o'r llwybrau tuag at gopa Mynydd Y Garth. Y galon lliwiau'r enfys yn Codi ysbryd y teithiwr talog! (*Mae gan Rhodri-Gwynn erthygl am grwydro'r llwybrau yn y rhifyn hwn*)



***Fel y cyfeiriwyd ar y dudalen flaenorol, dyma Wythnos Cymorth Cristnogol a'r plant sydd wedi darparu'r gwasanaeth ar ein cyfer ar y we. I'w gyrraedd rhaid i chi fynd at y wefan hon:***

[https://youtu.be/6c9jD41v\\_40](https://youtu.be/6c9jD41v_40)

*Fel gwyddoch, mae'r arferiad o gasglu o ddrws i ddrws wedi gorfod cael ei anghofio am eleni. Mae swyddfa Caerdydd ar gau ar gyfer derbyn sieciau a dydi'r mudiad ddim yn argymhell i unigolion anfon sieciau ar hyn o bryd, beth bynnag. Os ydych chi am sgwrs yn Gymraeg yna ffoniwch eu swyddfa ym Mangor ar 01248 353574. Eu rhif yn Llundain ydy **08080 006 006 - ac mae'r alwad am ddim.***

*Mae trefniadau arbennig i dderbyn rhoddion oddi wrth eglwysi a mudiadau – naill ai ar-lein neu drwy sieciau. Mae modd hefyd i unigolion gyfrannu ar-lein. Mae'r manyllion i gyd i'w cael ar eu gwefan:*  
<https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week>



Os digwydd i chi ngweld i a 'mhen mewn llyfr, mae'n eitha tebygol taw llyfr am oes y Tuduriaid yw e. Ffaith neu ffuglen, dwi wrth fy modd gyda'r cyfnod. Ar hyn o bryd dwi wrthi'n ail ddarllen; ie, ail ddarllen, (trist iawn "very sad"), cyfres C. J. Sansom am Mathew Shardlake, y cyfreithiwr cyffredin sy'n meddu ar y ddawn anghyffredin i ddatrys dirgelion dyrys ei ddydd. Difyr iawn! Ie, oes y Tuduriaid, cyfnod y Pla, a chyfnod Harri'r Wythfed, cyfnod o chwyldro gwleidyddol ac eithafiaeth crefyddol, a barbareddiwch. Ac wrth ysgrifennu hyn o eiriau fe ddaeth enghraifft o eithafiaeth a barbareddiwch cyfoes i 'nghlyw, milwyr IS yn saethu 17 o famau mewn ysbyty yn Kabul, a dieithryn o eithafwr yn lladd ei hun a theulu o alarwyr mewn angladd. Eithafwyr a gwaed ar eu dwylo. Pryd daw'r trais i ben? A beth sy'n bod ar y ddynoliaeth? Cwestiynau sy'n cael eu gofyn heddiw, a chwestiynau roedd Mathew Shardlake yn eu gofyn nôl yn oes y Tuduriaid. Cyfnod creulon, cyfnod o newid ac amheuaeth ac o gwestiynu, ac os o'ch chi'n cwestiynu neu'n croesi Harri y

brenin "self obsessed" mi allech chi goll'i'ch swydd, eich statws, neu eich pen, fel digwyddodd i'r ddau Tomos – Moore a Cromwell. Cromwell am fethu a phlesio, a Moore am ofyn gormod o gwestiynau "anodd".

Ie, dyw arweinwyr gwleidyddol ddim yn hoffi "nasty questions". Ac fe welon ni enghreifftiau o hyn yr wythnos hon pan dderbyniodd Boris Johnson sawl cwestiwn anodd ynghylch lleddfu rheolau'r "lockdown", ac yng nghysgod y West Wing ("The Self Obsessed Wing") fe ddangosodd Arlywydd yr Unol Daleithiau ei ddiffygion mewn cynhadledd i'r wasg gyda'i gwyn "That's a nasty question!" cyn colli'i ben, pwdu a gadael ei bodiwm!

Fe dderbyniodd yr Iesu nifer o gwestiynau cas a chyfrwys yn ystod ei weinidogaeth, rhai gan y Phariseaid a rhai gan Arweinydd Ymherodraeth Rhufain yn Jiwdea, Peilat. Canlyniad y croesholi oedd croesholio, a Pheilat yn "golchi ei ddwylo" o'r sefyllfa. Ie, golchi dwylo – rhywbeth ry'n ni'n cael ein hannog i wneud yn gyson y dyddiau hyn, a rhywbeth roedd Florence Nightingale yn annog i'w nyrsys i wneud yn ystod Rhyfel y Crimea. Yn addas iawn ry'n ni wedi dathlu 200 mlwyddiant Florence yr wythnos hon ar Ddydd Rhyngwladol y Nyrsys. Ry'n ni'n gyfarwydd a Florence y rheolwraig a'r hyfforddwraig, ond beth am Florence y diwygiwr cymdeithasol? Roedd hi'n daer dros ofal iechyd i bob haen o gymdeithas, yn daer dros gyfleoedd i fenywod yn y farchnad waith, ac yn daer dros ddod a newyn i ben yn yr India. Menyw a gweledigaeth! Roedd hi am "Estyn dwylo dros y mor"- sef yr hyn mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gwneud ers degawdau. Mudiad sy' erioed wedi llaesu dwylo wrth dderbyn y cyfrifoldeb i ofalu am eraill. Ac fel ry'n ni'n gwybod ma' hi'n Wythnos Cymorth Cristnogol, ond eleni mae'n Wythnos dan gysgod Covid! Felly, dim dwylo'n rhannu amlenni, na dwylo'n derbyn rhoddion, ond oherwydd ryfeddod yr oes dechnolegol yma mae modd cael y llaw uchaf ar y feirws yn yr achos hwn. Gall ein dwylo barhau i roi – ar-lein, fel bo dwylo bregus y trydydd byd yn parhau i dderbyn. O ran cadw Covid hyd braich mae'n gyfrifoldeb arnom ni i olchi'n dwylo, ond peidiwn a gadael i'r feirws roi cyfle i ni olchi'n dwylo o'n cyfrifoldeb i wasanaethu'r rhai mwya' bregus yn ein byd. Wedi'r cyfan, "yn gymaint nas gwnaethoch i un o'r rhai hyn, nis gwnaethoch i minnau."

*Delwyn*

### **Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf o "Gair bach Bethlehem"?**

*Ydych chi wedi darganfod hen lun, hen lyfr neu drysor? Beth am roi ychydig o'ch hanes – sut ydych chi wedi treulio'ch amser?*

**Ewch ati nawr – ac anfon gair erbyn Mai 21 at: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)**

*Rydyn ni wedi derbyn cymaint o amrywiaeth dros 8 rhifyn.*

*Mae wedi bod yn bleser darllen pob cyfraniad. Diolch i bawb.*



Fe gyrhaeddod ni Ffrainc ar Fawrth y trydydd am dair wythnos! Haha – rydan ni'n dal yma!

Fe ddechreuodd y 'lockdown' bondigrybwyll ar yr ail ar bymtheg o Fawrth, ac felly dyma ni – yn styc! Ond dyw pethe ddim yn ddu i gyd. Diolch byth mae yna archfarchnad go fawr ddim ond rhyw hanner milltir i ffwrdd, ac mae honno wedi aros ar agor. Does dim prinder o ddim wedi bod – mae gen i ddigon o bapur toiled i bara canrif! (Rhaid oedd eu prynu 'rhag ofn'!)

Mae ganddon ni hawl i fynd allan am rai rhesymau penodedig – i siopa bwyd neu fynd am dro. OND rhaid cario papur 'attestation' efo chi i bob man, sy'n nodi ble gawsoch chi'ch geni, beth yw'ch cyfeiriad chi yma a faint o'r gloch adawsoch chi'r tŷ. Mae ganddon ni'r hawl i fod allan am awr... a dim ond teithio un cilometr o'ch cartref. Yn wir fe gawson ni'n stopio gan yr heddlu un noson wrth fynd am dro, nhw'n gofyn i ni i ble oedden ni'n mynd a 'ble mae'ch papurau chi'?! (Os nad yw'r papurau angenrheidiol gyda chi, fe gewch chi ddirwy yn y fan a'r lle.)

Mewn rhyw ffordd roeddwn i'n reit falch o'u gweld, gan mod i'n teimlo bod y rheolau'n cael eu cadw – er ein lles ni.

Un peth arall – mae gofyn i ni wisgo un 'fashion accessory' amheuthun wrth fynd fewn i siop: y masg! (*fel mae Keith yn ei fodelu yn y llun!*). Ond rhaid dweud, does dim ots gan y naill na'r llall ohonon ni am y rheolau yma gan eu bod eto fyth yn ceisio cadw rheolaeth ar yr aflwydd hwn. Yr argraff rydyn ni'n ei gael eu bod nhw dipyn llymach yma nag adre yng Nghymru. Does dim llawer o bobol o gwmpas, dim llawer o geir... ond 'rargian fawr, mae adar yn gwneud sŵn, nawr ein bod yn gallu eu clywed!



Keith dan y mwgwd – Nia'n dal i wenu!

OND daw eto haul ar fryn – o'r wythnos hon ymlaen fe fydd hawl gan fwy o siopau agor (gan fod popeth ond siopau bwyd a 'pharmacies' wedi bod ar gau). Mae hawl gan bob perchennog siop i greu ei reolau ei hun – er enghraifft faint o bobol gaiff fynd i fewn ar y tro (rhaid creu ciw y tu allan – lyfli yn y glaw!). Hefyd fe fydd hawl teithio hyd at 100 cilometr i ffwrdd o'ch cartref 'fel yr hed y frân'! Hyn yn rhoi rhyddid i ni ymweld ag ardaloedd eraill.

Does dim bariau na thai bwyta ar agor eto – mawr yw'r disgwyl am hynny!

Does dim syniad ganddon ni eto pryd fyddwn ni'n gallu dod adref – mae'r rheolau teithio yn cael eu newid yn hynod o araf. Ond dyna fe – rydyn ni'n lwcus iawn, gallai fod lot yn waeth. Yr unig beth ddweda i yw y bydd hi'n neis gweld ein cartref a'n ffrindiau (a hynny heb gymorth Zoom, er diolch amdano ar hyn o bryd!)

Rhag ofn na fyddwn ni nôl mewn pryd, ga'i ddymuno Nadolig Llawn i chi i gyd!!!

**Brysiwch adre'n ddiogel, Keith a Nia – a diolch am anfon eich hanes ar gyfandir mawr Ewrop aton ni!**

## ODLAU'R GARTH

Mae'r beirdd ar eu gwyliau – ar wahân i ddau limrigwr! Beth am rigwm, limrig neu awdl gyfan erbyn y tro nesaf. Iawn? Dyma'ch cyfle – unrhyw bwnc, o fewn rheswm!

### Llithriad

Roedd beirniad yn Steddfod Morgannwg  
â brathiad go fawr ar ei wddwg.

Yn y babell enwadol

hwn a gollodd ei sbectol.

Fe'i hudwyd gan hoeden ddiolwg.

**MH**

### STEDDFOD "AM-GEN"

O'n i'n edrych ymlaen at Dregaron -  
Carafán sownd yng nghors Ceredigion,  
hwyrach troedio drwy'r baw  
neu 'mochel rhag glaw!

AM-GEN? Mae i honno'i manteision.

**IR**

Er gwaetha'r hunllef presennol sydd yn ein hamgylchynu, mae' n bwysig cadw'n brysur ac i feddwl am ffyrdd sy'n mynd i'n diddanu a'n diddori a chynnig rhywfaint o ymarfer corff i'r dychmyg. Efallie fy mod i mewn sefyllfa llawer mwy ffodus na'r mwyafrif gan ystyried mod i wedi treulio rhan fwyaf o fy mywyd proffesiynol yn hunan ynysu mewn stiwdio yn Nhreganna; yn gwasgaru paent ar draws cynfas ond yn bennaf yn gwylio paent yn sychu! Ond mae codi pensel a gwneud darlun yn un ffordd amddiffynnol o gadw'r ci du yn ei gwb!



Yn ffodus iawn, fuodd Glenys a fi ym mis Chwefror am daith gerdded i Sgwd yr Eira a tra yno ymweld a phob sgwd arall oedd ar gael yn Nyffryn y Fellte. Ac er gwaetha'r poenau dychrynlyd dros y dyddie wedi hynny (hen goese yn gwingo) mae'r deunydd gweledol a gasglwyd (ffotos, brasluniau) wedi profi'n amhrisiadwy yn yr wythnosau dwetha.

Felly, dyma fi yn fy stiwdio yn yr ardd yn ail gerdded hen lwybrau ac yn creu peintiadau a darluniau newydd a fydd, gobeithio, yn gweld golau dydd yn Oriel Canfas yn mis Tachwedd, gobeithio!

Tra'n myfyrio yn fy lloches, mi feddylies, beth am rannu'r profiadau hyn gydag eraill gan obeithio y bydd y delweddau nesa yn eich sbarduno chi i greu.

Ewch ati. 'Sdim angen llawer o ddeunydd technegol - jyst papur a phensil. Ewch allan i'r ardd a recordio'r wledd weledol sy' o'ch blaen, tynnwch lun o'ch cymar yn cysgu o flaen y bocs, neu yn y bath. Neu syllwch ar flodau'r gwanwyn - mae cannoedd o themâu ar gael heb symud bant o'r tŷ.

Neu efallai mai ffotograffi yw eich maes, neu wnïo, barddoni - beth bynnag fo eich diléit, ewch ati i greu. Efallai pan gawn ni'n rhyddhau, beth am gynnal arddangosfa o'r deunydd ym Methlehem?

Diolch i'r Tad am gelf!



Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Anthony am y rhagflas o rai o'r lluniau fydd ganddo yn ei arddangosfa ym mis Tachwedd. Yn y cyfamser, ewch chithau i greu ac anfon ambell lun a hanes am eich profiadau creadigol aton ni. A beth am yr awgrym am sioe o'r gweithiau ym Methlehem?



Mae'n ddydd Gwener, Mai yr 8fed, 2020 - 75 mlynedd ers "V.E. Day" yn ôl pob sôn. Mae'r cyfryngau yn llawn ffilmiau o'r archif o bobol yn llenwi strydoedd du a gwyn â'u dawnsio a'u canu a'u chwifio Union Jacks. Mae'n stryd ni yn dawel dros ben bore 'ma - er fod yr hen wraig gyferbyn wedi sticio Union Jack bach plastig yn y pot blodau ger ei drws ffrynt. Ar y teledu dwi'n gweld cyfweiliad arall gyda'r hollbresennol Gapten Tom, gyda'i fedalau yn hongian ar ei frest. "Dwi'n mynd mas i glirio'r garej..." Fel y gŵyr darllenwyr ffyddlon y Bwletin mae'r garej yn gartref i chwe beic, un beic modur, degau o botiau paent a pheiriant "rhoi jet-wash i'r patio". Yno hefyd, ar fachyn yn y wal, mae casgliad o fedalau yn hongian - nid medalau milwrol yw'r rhain ond medalau a dderbyniwyd gan Siân a finne flynyddoedd yn ôl am redeg rasys. 5k, 10k, Hanner Marathon a Marathons llawn - mae'r medalau, a'u rhubanau lliwgar, yn dwyn atgofion o gyfnod pan oedd y flwyddyn yn cael ei threfnu o gwmpas y calendr rhedeg.



Yn dilyn ein polisi teuluol diweddar ("os nad yw rhywbeth o ddefnydd bellach, neu'n dod ag atgofion pleserus, mae'n cael mynd") mae'r medalau mewn perygl gwirioneddol o ddiffannu i'r bin ond wrth i fi gamu yn fygythiol



tuag atynt mae un fedal yn denu fy sylw yn arbennig - medal drom, rhuban melyn a gwyrdd, Marathon Llundain 2004. Alla i ddim taflu hon. Aeth gormod o chwys a phoen i'w hennill yn y lle cyntaf. Felly mae hon yn cael aros.

Wrth i fi anwesu'r fedal dwi'n cofio digwyddiadau'r diwrnod mawr - Ebrill 18fed, 2004. Dwi'n cofio'r glaw mân wrth i ni aros am gael dechre; y torfeydd ger y Cutty Sark a Phont Tŵr Llundain; sŵn cerddoriaeth y bandiau ar hyd y strydoedd a bloeddiadau Jâms ac Anna oedd yn aros am Siân a finne ger Palas Buckingham - a dwi'n cofio digwyddiad rhyfedd ar ôl croesi'r llinell derfyn... Wedi cwblhau y 26.2 milltir, a thrio peidio â chroesi'r llinell derfyn yr un pryd â rhedwr wedi'i wisgo fel Teletubby rhag sbwylio'r llun swyddogol,

roeddwn i, fel pob rhedwr, yn derbyn bag plastig o ddanteithion a medal o amgylch fy ngwddf. Ond wrth ymuno â'r rhes o redwyr chwyslyd, blinedig fe ddes i'n ymwybodol o ryw gythrwfl y tu ôl i ni. Roedd rhywun wedi neidio dros y ffens, rhyw ddau gan llath o ddiwedd y ras, ac wedi rhedeg dros y llinell derfyn er mwyn hawlio un o'r medalau. Wrth i'r swyddogion ei lusgo o'r neilltu roeddwn i, a'r rhedwyr eraill, yn ysgyrnygu'n flin fod rhywun wedi bod mor hy; wedi chwennych y clod heb ddiodef y cleisiau.

Rôl cyrraedd nôl i Gaerdydd ar y trênn, a rhoi'r ddau blentyn blinedig yn y gwely, fe steddon ni lawr â choesau poenus i wyllo uchafbwyntiau'r ras ar y teledu. Roedd y rhaglen yn cau gyda'r 'montage' arferol o redwyr, cyflym ac araf, yn brwydro'u ffordd trwy strydoedd Llundain. Y gerddoriaeth a ddewiswyd oedd Heather Small o "M. People" yn canu "What have you done today to make you feel proud?"

Rhedeg 26.2 milltir er budd elusen wnes i - a neidio dros ffens a rhedeg 200 llath wnaeth y dihiryn haerllug. Cerddodd y Capten Tom ar ei goesau cant oed a chodi miliynau i'r GIG - ond nid am hynny y derbyniodd ei fedalau. Rhaid i bawb holi ei gydwybod ei hun, am wn i - "What have you done today to make you feel proud?"



Wrthi'n hel meddyliau a cheisio rhoi tipyn o atgofion ar bapur ydw i'r dyddiau yma er mwyn i'r meibion, Aled ac Owen, gael rhyw fath o gofnod o hanes eu tad. A dim ond nhw, sylwer.

Ond gan fod Ifan Tŷ Cnau wedi gofyn yn hynaws, nage, yn mynnu'n garedig mod i'n cyfrannu i gylchgrawn Bethlehem, fe gewch chi, yn gyfrinachol felly, rannu rhai o'r penawdau.

Y teitl fydd "*O'r Brij i'r Enjinrwm*"; yna "*O agor fy llygaid i weled*" – y dechreuad; "*I mi rydoedd man fel nefoedd*" – dyddiau ysgol; "*Gweld yn ôl yw golud dyn*" – hanner cyntaf gyrfa BBC. A 'wi' newydd orffen "*O bwll hud y Babell Lên*". Deng mlynedd hapus iawn yn y garafán tu ôl i'r cwt pren ar gyrion maes y Brifwyl gyda'r cynhyrchydd hynaws, llawn gwreiddioldeb, Dafydd

Huw Williams – y "Chief" – un o'r cynhyrchwyr prin yn y BBC a wnâi i chi deimlo mae gweithio gyda nhw oeddech chi ac nid iddyn nhw. Coffa da amdano, ysywaeth.

O barch iddo fe, dyma hanesyn bach neu ddau o'r cyfnod hwn. Byddai ei adroddiadau nosweithiol o'r Babell Lên yn "Tocyn

Wythnos" yn un o uchafbwyntiau'r rhaglen. Byddai pobl yn dweud wrtha i yn y bore ar y maes, "Ew, gawsoch chi ddiwrnod da yn y Babell ddoe". Yn aml doedden nhw ddim mor dda a hynny, ond bod Dafydd, a finne gydag e, wedi dethol a dewis, ac athrylith y "Chief" wedi lincio'r cyfan yn becyn hynod ddiddorol, gafaalgar – darlledu ar ei orau.

Dyma bwt neu ddau. O.M. Lloyd a W.D. Williams oedd yn cadeirio a Meuryna yn yr Ymryson bob dydd. Y ddau wrth eu bodd o flaen cynulleidfa a thynnu ar ei gilydd. Hyn yn symbylu Dafydd i'w galw'n Morecambe and Wise Cymru.

Cofio Steddfod y llwch yn Aberteifi yn 1976. T. Llew Jones yn darlithio ar fois Y Cilie – awr fawr T. Llew oedd hon i fod, er iddi fynd yn ddwy awr – "to be continued" y diwrnod canlynol. Cofio fe'n sôn am Isfoel yn dweud stori am gymeriad lleol, Cynfelin Benjamin, yn beirniadu'r gadair leol ac yn cyhoeddi'r ffugenw buddugol – a phan na chododd neb yn y gynulleidfa, yn cyhoeddi " Y fi yw e", medde fe, ac yn rhoi'r wobwr iddo fe'i hunan. Dafydd Iwan yn yr un ddarlith yn canu pytiau o ganeuon gwerin ayb. ac yn

ystod pennill cynta' un gân yn sylweddoli fod hi'n rhy uchel iddo. Dyma stopio a gofyn i Tudfor, "Wyt ti'n gallu pitsio, Tudfor?". Yn syth fel fflach yntau'n ateb, "Wy'n gallu pitsio gwair!"

Pabell Steddfod Caerdydd 1978 a'r Parch Eirian Davies yn beirniadu'r delyneg – pabell orlawn wastad i Eirian. "Y Graith" oedd y testun a dyma fe'n cyrraedd y ddwy ar y brig. Dwy delyneg wahanol iawn, ac yn cyfaddef iddo gael anhawster penderfynu pa un oedd yr orau. Plentyn bach yn mynd a'i fwced a'i raw i'r traeth sydd yma a rhywun – rhyw Sais – yn dwyn y bwced a'i rhoi yn bwt ei gar. Roedd Eirian wedi ffoli ar un linell yn y delyneg –

"Hen fwced bendigedig" er ei fod yn amau defnyddio'r ansoddair bendigedig mor sathredig, ond bod y gynghanedd Lusg wedi achub y llinell. Roedd yn werth clywed llais soniarus Eirian yn ei darllen hi deirgwaith. Hi gafodd y wobwr gyntaf, ond gwrthodai'r llall adael llonydd iddo, un yn sôn yn ffiائد ac yn gignoeth am yr erchyllterau yn lwerddon,

gan ddechrau:

"Mi dorraf botel ar y bar – a'i phlannu yn dy wyneb" ac yn gorffen gyda:

"Mi fydd dy blant yn cofio'u tad yn hyll ac un llygeidiog;

A phan ofynnant pam a ble

Dwed am y bastards yn y de."

Ac wedi iddo ddarllen honno, fe'i synnwyd gan adwaith y gynulleidfa ac meddai, "Wi'n amau i mi wneud y dewis anghywir ond mae'n rhyw hwyr nawr – a'r bardd oedd Euryn Ogwen o'r Barri.

Rwy'n gorffen yn Steddfod Aberteifi – y Parch D. Gwyn Evans yn beirniadu'r englyn. Nifer dda, tua 75 fel llynedd, meddai ond cystadleuaeth siomedig – nifer fawr o englynion gwallus a hwn heb un llinell o gynghanedd ynddo, ond y ffugenw – a dyma fe. "Yn dy law y blydi lot" ac mi atseinia inne'r llinell yna wrth gyflwyno'r llith hwn i Mr Golygydd, gan ddiolch iddo am ei waith clodwiw.



*Ôl-nodyn y Golygydd: Bu Dafydd Huw, y cyfeirir ato gan Wyndham, yn gyfaill agos i mi drwy ddyddiau ysgol, coleg, y BBC ac S4C. Mae'n chwith iawn ar ei ôl. Ifan*



Un o'r ychydig bethau sydd wedi eu caniatáu i ni eu gwneud yn ystod y meudwyo yw cael cyfle i fynd allan o'r tŷ unwaith y dydd a manteisio ar orig o ymarfer corff.

Yn ein tyb ni felly, y ffordd orau o wneud hynny fyddai cerdded llwybrau'r fro yng nghwmni'n gilydd, gan ddewis cyfeiriad gwahanol yn ddyddiol hyd y bo hynny'n bosibl.

Os yw hi i'w choelio, mae'r ffôn lôn yn dweud ein bod felly wedi tramwyo tua 200 milltir yn ystod y cyfnod ynysu yma. A nid y ni ydi'r unig rai i wneud hyn wrth reswm - gwn bod llawer iawn eraill ohonoch wedi bod ar yr un perwyl.

'Rydym yn ffodus ym Mhentyrch bod yna gymaint o lwybrau cyhoeddus i'w cerdded, a'r mwyafrif llethol ohonynt wedi eu harwyddo'n dda, gyda'r giatiau a'r camfeydd yn eu lle at ein defnydd.



Yn yr ardal hon, Cyngor Cymuned Pentyrch sydd â gofal am y llwybrau cyhoeddus, a mawr ein diolch am sicrhau a diogelu'r adnodd pwysig yma fel ein bod ni'r "cyhoedd" yn gallu mwynhau cefn gwlad ac amrywiaeth y tymhorau trwy gydol y flwyddyn. Ymddengys y bydd gwaith cynnal a chadw mwy na'r arfer ei angen ar y llwybrau pan ddaw'r cyfnod presennol i ben oherwydd y defnydd cyson sydd arnynt ar hyn o bryd.

Nid cystal bob amser, serch hynny, yw'r arwyddion dwyieithog y maent a chyfrifoldeb amdanynt! (*gweler ar y chwith!*)

Mae eraill ohonoch eisoes wedi sôn am harddwch cynhenid ein hardal, yn flodau, yn goed, yn adar, yn ymlusgiaid a mamaliaid. Mae'r cyfan yn rhyfeddod ac yn rhyfeddol! Mae'r cyfan yn newid yn ddyddiol bron o flaen ein llygaid.

"Yda chi wedi clywed y gog eto?"

"Dwi'n meddwl fod y Gwenoliaid yn eu holau."

"Ydi'r ehedydd yn dal yn brysur ar y Garth?"

"Welsoch chi'r Gwalch Glas yn cipio'i brae?"

Mae cerdded hefyd yn rhoi cyfle i ni gael gwedd newydd ar orffennol y fro, yn ei hanes, yn ei diwydiant ac yn ei thrafnidiaeth.

Cawn gip ar adfeilion tai a thafarn (y "Colliers' Arms") y gymdeithas oedd yn byw ar ysgwydd y Garth, gan ddychmygu'r sgwrsio bras a fu ar yr aelwyd ac wrth y bar. Cawn ôl ambell i golsyn glo a gloddiwyd o'r graig gerllaw na losgwyd yn y simdde sy'n dal i sefyll yn weddill o'u cartrefi carreg.

Cawn glustfeinio ar sŵn yr awen ger adfeilion cartref y bardd (a pherchennog y mwynglawdd) Morgan Thomas, yng Nghoed y Bedw, ganrif a mwy yn ôl.

Cawn gip ar blatfform gorsaf y Creigiau, sy'n disgwyl ers hydoedd am y trê'n nesaf i gario glo i Ddociau'r Barri neu i gludo plant yr ardal i Ynys y Barri ar eu trip Ysgol Sul.

Cawn gip ar furiau mud Capel Taihirion, ger Rhydlafer, y bu'r achos a sefydlwyd yno yn gymaint ei ddylanwad ar gynulleidfaoedd a chapeli eraill y cylch ers oddeutu 1760.



Copa'r Garth yn y machlud y nos o'r blaen.

Mae Mynydd y Garth ei hun wrth gwrs yn dalpyn o hanes ers yr Oes Efydd, a'r tomenni claddu ar y crib yn dyddio i gyfnod o gwmpas 2000 CC.

Serch yr haint, neu yn wir oherwydd yr haint, yn ein caethiwed, onid yw'n braf ein bod yn gallu datgan ein bod yn hynod o freintiedig o allu cerdded ar yr un llwybrau ac yn ôl traed rhai a dramwyodd yma dros gyfnod o bedair mil a mwy o flynyddoedd.

"Lle'r awn ni 'fory am dro 'ta?"



Mae Valparaiso yn Chile yn Ne America yn bell bell o Borthmadog yn Eifionydd. Ond dyna oedd y fordaith reolaidd yr arferai Edwin Jones wneud pan oedd yn llanc ifanc. Roedd ei dad yn gapten llong fyddai'n cludo llechi 'Rownd yr Horn', gan gario "guano" nôl i Gymru.

Ymddeolodd Edwin i fyw mewn bwthyn hyfryd ger pentref Nasareth yn Nyffryn Nantlle. Pan glywodd fy mod wedi ennill ysgoloriaeth i fynd i dreulio tri mis yn Chile gofynnodd i fy nhad fynd a fi gyda fo y tro nesaf y byddai'n galw ar ei ymweliad misol ac aelodau ei ofalaeth. Roedd crudcymalau'n yn cyfyngu llawer ar ei symudiadau ond hawdd oedd gweld ôl cerdded morwr yn ei osgo.

"Os digwydd i ti fynd i Valparaiso, gai ofyn ffafr?"

Santiago, sef prifddinas Chile, oedd y lle roeddwn i fod i fynd iddo, a Phrifysgol Babyddol y ddinas oedd y lle o'n i fod i dreulio cyfnod yr ysgoloriaeth ynddi, yng nghwmni myfyrwyr.



"Mae Valparaiso yn borthladd enfawr, ac o fynd yno cei weld y 'Pacific' am y tro cynta," meddai'r hen forwr. "Bu fy nhad farw yno, ac os cei di gyfle i ymweld a'r 'English cemetery', edrych am fedd fy nhad. Bu raid i mi adael ar y fordaith nôl i Gymru cyn yr angladd."

Helpu i sefydlu undebau myfyrwyr oedd pwrpas y daith bell i Dde America, gan dynnu ar fy mhrofiad yn Llywydd y Myfyrwyr yng Ngholeg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth. Buan iawn y sylweddolodd y criw ohonom oedd ar y daith mai y ffordd ore

i ennill sylw a chefnogaeth myfyrwyr y Brifysgol yn Santiago oedd ymuno a nhw ar brosiect i adeiladu canolfan gymunedol, yn hytrach na darlithoedd diddiwedd.

"Mae myfyrwyr campws y Brifysgol yn Valparaiso yn gwneud rhywbeth tebyg yn barod," meddai un o'r myfyrwyr wrtha i. "Mewn lle or enw Vinia del Mar, ar ochr y môr."



Treuliwyd tua chwe wythnos yn helpu i adeiladu'r ganolfan, lle i bobl ifanc y dre glan môr gyfarfod ac ymlacio. Un pnaawn Sul dyma anelu am Valparaiso a holi am leoliad y fynwent. Roedd natur wedi ail-feddiannu'r lle cyn cysegredig, gyda chadwyn rydlyd yn rhwystro mynediad. Dringo dros y wal a chwilio am y bedd. Sylweddoli wedi tua hanner awr o chwilota bod rhai beddau wedi eu torri i wyneb y wal gefn ac yno y darganfyddais i garreg

fedd "Captain Jones". Methais a deall y llythrennau rhwng y teitl a'r cyfenw ond roedd 'Porthmadog, Wales' yn glir. Tynnais lun o'r garreg ac o'r fynwent, cyn troi nol i Vinia del Mar, ac adre nôl i Gymru.

Allai ddim disgrifio y poen na'r pleser gafodd Edwin Jones o weld y llun, ond rydw i'n cofio clywed y wylofain wrth i fy nhad a minnau adael y bwthyn a throi am adre.



# COFIWCH am hwn yr Wythnos nesaf!

## Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan bobl ifanc Cymru, 18 Mai 2020 – Stopio'r Cloc ac Ailddechrau

Posterï ac adnodd dysgu ar gael



Mae'r amser yn prysur agosáu – **dim ond wythnos i fynd** tan i'r Neges gael ei chyhoeddi a'i lledaenu ar draws y byd.

**Posterï** – mae posterï y Neges ar ffurf pdf bellach ar gael ar y wefan mewn 52 o ieithoedd.

**Adnoddau** – mae dau gyflwyniad byr llawn gwybodaeth am Gymru, yr Urdd a'r Neges ar gael ar y wefan hefyd. Un ar gyfer y gynulleidfa ryngwladol, ac un ar gyfer pobl yng Nghymru.

Ewch i [www.urdd.cymru/heddwch](http://www.urdd.cymru/heddwch) i'w lawrlwytho

**Gofynnwn am eich cefnogaeth i helpu pobl ifanc Cymru ar y 18fed o Fai i wneud hon y neges fwyaf mewn hanes.**

1. Ail-drydarwch / postio y neges ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar yr 18fed o Fai gyda -
  - Llun ohonoch yn gwneud symbol 'triongl' gyda'ch dwylo a thagio 5 person yn eu herio i wneud yr un peth gyda'r **#heddwch2020**
  - Neu Emoji baner eich gwlad chi / Emoji y byd / Eich hoff Emoji ac **#heddwch2020**
2. Paratowch ymateb i'n neges ni - gall hyn fod yn llun/geiriad /gair o gefnogaeth /lluniau / fideo /cân gan ddefnyddio #heddwch2020 neu ei ebostio at [heddwch@urdd.org](mailto:heddwch@urdd.org)
3. Anogwch eich ffrindiau a chysylltiadau ar draws y byd i ymateb

*Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf o'r Gair bach?*

*Erbyn Mai 21 at: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)*